Adran Gwaith a Phensiynau

# Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

**Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech gael braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain, neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym p'un sydd angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol a llinellau daear.

**BI100PDW Notes** 01/24

# Cynnwys


**Beth sydd angen i chi ei wneud** 3

**Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB)?** 3

**Beth yw afiechyd diwydiannol rhagnodedig?** 4

**A oes gen i hawl i IIDB?** 4

**Effaith ar fudd-daliadau eraill** 5

**Pryd i wneud cais** 6
Sut i wneud cais 6
Help gyda llenwi'r ffurflen 6
Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall 7
Cwblhau'r ffurflen ar ran rhywun gan ei fod wedi marw 7

**Eich cais am afiechyd diwydiannol rhagnodedig** 8
Darpariaethau arbennig 8
Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gael eich cais am fudd-dal? 8

**Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth** 9

**Arian arall efallai y gallwch ei gael** 9
Lwfans Enillion Is 9
Lwfans Gweini Cyson 10
Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol 10
Taliad ychwanegol i bobl os yw eu cyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant wedi mynd allan o fusnes 10

**Ble i gael help a chyngor am afiechydon diwydiannol rhagnodedig** 11

**Manylion cyswllt ar gyfer canolfan Budd-dal Anafiadau Diwydiannol Barnsley** 12


## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

# Nodiadau am hawlio budd-dal ar gyfer afiechydon diwydiannol rhagnodedig

Bydd y nodiadau hyn yn rhoi gwybodaeth am:
- beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?
- beth yw afiechyd diwydiannol rhagnodedig?
- a oes hawl gennyf i Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

# Beth sydd angen i chi ei wneud

Cwblhewch y ffurflen gais ac anfonwch hi i'r cyfeiriad sydd ar ddiwedd y nodiadau hyn. Darllenwch y nodiadau hyn cyn i chi gwblhau'r ffurflen gais. Sicrhewch eich bod yn ateb yr holl gwestiynau yn llawn.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â phen, ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU. Pan rydych yn anfon y ffurflen yn ôl, sicrhewch eich bod yn:
- cwblhau'r Caniatâd yn Rhan 2
- llofnodi'r Datganiad yn Rhan 10
- anfon unrhyw adroddiadau meddygol neu lythyrau atom sydd gennych i gefnogi eich cais. Gall y rhain fod gan eich ymgynghorydd, Meddyg Teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

Dyma'r math o ganlyniadau profion meddygol efallai y dymunwch gynnwys sy'n berthnasol i'ch anabledd neu afiechyd rhagnodedig:
- canlyniadau sganiau ond nid y sganiau eu hunain
- awdioleg
- canlyniadau pelydrau x, ond nid y pelydrau x eu hunain
- adroddiadau ymgynghorydd.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, gallwch ofyn i ffrind, perthynas, gofalwr neu weithiwr cymorth i'ch helpu. Gallwch hefyd ein ffonio ar **0800 328 1744** i gael help dros y ffôn i gwblhau'r ffurflen, Peidiwch â mynd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith lleol.

# Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB)?

Mae Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB) yn daliad i bobl sy'n anabl oherwydd damwain, afiechyd neu ddigwyddiad sydd wedi digwydd yn y gwaith, mewn perthynas â gwaith, neu tra ar gynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth gymeradwy.

Os ydych am hawlio budd-dal ar gyfer damwain, bydd angen i chi lenwi ffurflen BI100AW 'Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer damwain a achoswyd yn y gwaith'. Gallwch ei chael trwy ffonio ni ar **0800 328 1744**. Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn. Gallwch hefyd lawr lwytho'r ffurflen a'r nodiadau i'ch helpu i'w llenwi, chwiliwch am 'BI100AW' ar **www.gov.uk**

# Beth yw afiechyd diwydiannol rhagnodedig?

Mae'r gyfraith yn rhestru dros 70 afiechyd gall gael ei achosi gan weithio mewn rhai mathau o swyddi penodol neu drwy ddefnyddio offer penodol. Mae'r afiechydon hyn yn cael eu galw'n afiechydon diwydiannol rhagnodedig.

Gallwch gael rhestr o'r afiechydon rhagnodedig a'r swyddi y gallwch wneud cais amdanynt o dan y cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar ein gwefan yn **www.gov.uk**

Os na allwch gael mynediad i'r rhestr o afiechydon ar-lein neu nad ydych yn siŵr am ba afiechyd y dylech wneud cais, cysylltwch â ni am help trwy ffonio **0800 328 1744**.

# A oes gen i hawl i IIDB?

Efallai y bydd hawl gennych i'r budd-dal hwn os ydych yn anabl oherwydd afiechyd a achoswyd gan eich gwaith, neu tra ar gynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth gymeradwy. Fel arfer, mae'n rhaid eich bod wedi dal yr afiechyd wrth weithio yn y DU.

Nid ydych yn gymwys i IIDB oes oeddech yn hunangyflogedig pan gawsoch yr afiechyd.

Efallai na fyddwch â hawl i IIDB os nad yw'r afiechyd yn cael ei ddangos ar y rhestr o afiechydon rhagnodedig, neu nad yw'r swydd wedi'i rhestri yn erbyn yr afiechyd.

Os nad ydych yn siŵr a allech wneud cais, cysylltwch â ni am help trwy ffonio **0800 328 1744**. Gallwch ddod o hyd i'n holl fanylion cysywllt ar ddiwedd y nodiadau hyn.

Mae yna gyfyngiadau amser penodol yn berthnasol i rai afiechydon rhagnodedig sy'n effeithio ar gymhwyster i IIDB:

**A10 – byddardod galwedigaethol**

Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio am o leiaf 10 mlynedd mewn o leiaf un o'r swyddi sydd ar y rhestr y gwyddys eu bod yn achosi byddardod. Mae'n rhaid i'r gwaith wedi bod o fewn 5 mlynedd i ddyddiad eich cais. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael budd-dal os oeddech yn gweithio'n agos iawn at rywun arall a oedd yn gwneud swydd ar y rhestr y gwyddys ei bod yn achosi byddardod.

**A14 – osteoarthritis y pen-glin**

Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio am o leiaf 10 mlynedd o dan ddaear mewn pwll glo. Os oedd hwn am waith ar ôl 1986, mae'n rhaid ei bod mewn galwedigaethau penodol y gwyddys ei bod yn achosi osteoarthritis y pen-glin. O 30 Mawrth 2012, gallwch hefyd gwneud cais am IIDB ar gyfer osteoarthritis y pen-glin os gwnaethoch weithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn gosod carped neu loriau (ac eithrio lloriau concrit), am gyfnod o 20 mlynedd neu fwy, neu gyfnodau sy'n gyfanswm o 20 mlynedd neu fwy.

**D7 – asthma galwedigaethol**

Ar ryw adeg yn ystod y 10 mlynedd cyn dyddiad eich cais, mae'n rhaid eich bod mewn cysylltiad, yn y gwaith, â sylwedd ar y rhestr a achosodd eich asthma.

**D10 – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint**

O 1 Awst 2012, mae gweithwyr poptai golosg wedi'u cynnwys yn y rhestr o'r rhai sy'n gallu hawlio IIDB ar gyfer yr afiechyd hwn. Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio'n bennaf fel gweithiwr popty golosg am o leiaf 5 mlynedd mewn gwaith popty uchaf, neu o leiaf 15 mlynedd mewn gwaith popty arall. Os gwnaethoch weithio llai o flynyddoedd ar y ddau fath o waith popty, gellir ychwanegu'r amser a dreuliwyd ar y ddau at ei gilydd i'ch helpu i gymhwyso.

**D12 – broncitis cronig neu emffysema neu'r ddau**

Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio dan ddaear mewn pwll glo am gyfnod neu gyfnodau sy'n adio i o leiaf 20 mlynedd, neu gyfnodau hyd at 40 mlynedd os buoch yn gweithio ar wyneb pwll glo fel gweithiwr sgrin cyn 1983, neu gymysgedd o'r ddau sy'n golygu bod 2 flynedd ar yr wyneb yn cyfateb i flwyddyn o dan y ddaear.

**Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar ba mor ddifrifol rydych yn anabl.** Fel arfer rydym am i chi fynychu asesiad. Efallai y bydd angen i chi gymryd prawf anadlu neu brawf clyw ac efallai cael pelydr x ar ein rhan. Ond ni fyddwn yn eich anfon am belydr x os:
- ydych wedi cael pelydr x o fewn amser penodol, a
- gall yr archwilydd meddygol cael copi ohono.

Bydd y meddyg sy'n eich archwilio yn dweud wrthym ba mor ddifrifol ydych yn anabl a pha mor hir y disgwylir i chi fod yn anabl.

# Effaith ar fudd-daliadau eraill

Ni fydd Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yn effeithio ar y budd-daliadau canlynol:
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Pensiwn y Wladwriaeth.

Bydd IIDB yn effeithio ar y budd-daliadau canlynol os ydych chi neu'ch partner yn eu hawlio:
- Credyd Cynhwysol
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith
- Budd-dal Tai*
- Gostyngiad Treth Cyngor*

* Cysylltwch â'ch cyngor lleol am fwy o wybodaeth.

# Pryd i wneud cais

Os byddwch yn dod yn anabl oherwydd afiechyd rhagnodedig, gwnewch gais am IIDB ar unwaith. Ond fel arfer ni fydd gennych hawl i fudd-dal am 90 diwrnod ar ôl y dyddiad y dechreuodd yr afiechyd. Os byddwch yn oedi efallai y byddwch yn colli rhywfaint o fudd-dal.

## Sut i wneud cais

Bydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau sydd ar y ffurflen os ydych am wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol gan sicrhau bod y caniatâd yn Rhan 2 wedi'i gwblhau'n llawn a'ch bod yn llofnodi'r ffurflen yn Rhan 10.

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl atom ar unwaith. Gallech golli arian os ydych yn oedi.

Gellir talu unrhyw fudd-dal y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn yn gyflymach os byddwch yn ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

Rydym yn defnyddio partner i olygu:
- person rydych yn byw gyda nhw sy'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn bâr priod.

Yn Rhan 4 mae'n gofyn pryd y gwnaethoch weithio i'ch cyflogwr. Mae angen i ni wybod y dyddiadau pan oeddech yn mynychu'r gweithle ac yn gweithio yno. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfnodau pan oeddech yn gyflogedig ond nid oeddech yn gweithio, er enghraifft os oeddech i ffwrdd yn sâl.

Os ydych yn gwneud cais am afiechyd rhagnodedig:
- A10 – byddardod galwedigaethol, hefyd cwblhewch y ffurflen BI100ODW y gwnaethom anfon atoch
- D4 – rhinitis alergaidd neu D7 - asthma galwedigaethol, hefyd cwblhewch y ffurflen  BI100OAEW y gwnaethom anfon atoch.

Os ydych wedi lawrlwytho'r BI100PDW hon a bod angen y BI100ODW neu'r BI100OAEW arnoch y soniwyd amdanynt uchod, ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu chwiliwch am y ffurflenni ar **www.gov.uk**

Anfonwch y ffurflenni hyn yn ôl atom cyn gynted â'ch bod wedi'u llenwi. Gallech golli arian os ydych yn oedi.

## Help gyda llenwi'r ffurflen

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon neu ran ohoni, cysylltwch â ni drwy ffonio **0800 328 1744**. Gallwn fynd trwy'r ffurflen gyda chi dros y ffôn neu gallwn lenwi'r ffurflen i chi.

Os byddwn yn llenwi'r ffurflen i chi, byddwn yn ei hanfon i chi. Yna, gallwch wirio, llofnodi a'i hanfon yn ôl atom.

## Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Dylai'r ffurflen dim ond cael ei lofnodi gan rywun arall os:

- nad yw'r person sy'n gwneud y cais gyda'r gallu meddyliol i weithredu ar ran eu hunain, **ac**
- mae rhywun yn fodlon gweithredu ar ei rhan ym mhob mater nawdd cymdeithasol, gan gynnwys dweud wrthym am newid yn eu hamgylchiadau a chasglu arian ar eu rhan.

Mae rhywun sy'n cael ei dderbyn gan yr Adran i weithredu ar ran person yn cael ei adnabod fel y 'penodai'.

Fel arfer ni fydd angen rhywun i weithredu ar ran person ag anabledd corfforol ond abl yn feddyliol.

Os bydd rhywun yn gwneud cais i weithredu ar ran person byddwn yn:

- trefnu ymweliad:
  - i'r person sy'n gwneud y cais, ac
  - i'r person sy'n gwneud cais i weithredu ar ei rhan, a
- penderfynu a oes angen rhywun ar y person i weithredu ar ei rhan, ac
- egluro'r cyfrifoldebau y bydd y penodai yn ymgymryd â nhw.

Ni fyddwn yn talu unrhyw fudd-dal tan i'r broses hwn cael ei gwblhau.

Os oes gan rywun bŵer atwrnai neu'r awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y person sy'n gwneud y cais, yna mae'n rhaid i'r person sydd â'r pŵer atwrnai neu'r awdurdod cyfreithiol:

- llofnodi'r ffurflen gais, a
- anfon copi o'r awdurdod cyfreithiol i ni gyda'r ffurflen gais.

Mae'n rhaid i'r awdurdod cyfreithiol gael ei ardystio a'i llofnodi gan cyfreithiwr fel copi cywir.

## Cwblhau'r ffurflen ar ran rhywun gan ei bod wedi marw

Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun sydd wedi marw, anfonwch gopi o'r tystysgrif marwolaeth gyda'r ffurflen gais.

# Eich cais am afiechyd diwydiannol rhagnodedig

## Darpariaethau arbennig

Ni fyddwn yn eich anfon am asesiad os ydych yn hawlio am un o'r afiechydon rhagnodedig canlynol:

- **D3** – mesothelioma gwasgaredig
- **D8** – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint gyda thystiolaeth o asbestos
- **D8A** – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos o dan rai amgychiadau
- **D10** – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint
- **D11** – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint lle mae tystiolaeth o silicosis yn cyd-fynd
- **C4** – carsinoma sylfaenol y broncws neu'r ysgyfaint
- **C22(b)** – carsinoma sylfaenol y broncws neu'r ysgyfaint, neu
- **C24(a)** – angiosarcoma yr afu.

Anfonwch dystiolaeth meddygol atom i ddangos eich bod yn dioddef o'r afiechyd, gan gynnwys dyddiad dechrau a dyddiad y diagnosis.

Mae'r dystiolaeth y gallwn ei derbyn yn cynnwys ffurflen **BI100PN(A)W** wedi'i chwblhau gan awdurdod addas fel eich nyrs anadlol arbenigol, neu ddatganiad gan feddyg, nyrs neu ymgynghorydd yn dangos bod y clefyd arnoch.

Nid yw'r cyfnod cymhwyso o 90 diwrnod yn gymwys i'r afiechydon hyn.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gael eich cais am fudd-dal?

Byddwn yn cysylltu â chi i ddweud wrthych bod eich cais gennym.

Bydd swyddog penderfyniadau yn edrych ar eich cais.

Mae swyddogion penderfyniadau yn bobl sy'n penderfynu:

- a yw'r gyfraith yn dweud bod eich afiechyd yn afiechyd diwydiannol
- a yw'r gyfraith yn dweud bod gennych hawl i fudd-dal neu beidio
- faint o fudd-dal y mae'r gyfraith yn dweud sydd gennych hawl iddo.

I helpu'r swyddog penderfyniadau i benderfynu ar eich cais, efallai y bydd angen mwy o wybodaeth arnom. Efallai y bydd angen i ni ofyn i bobl am eich cais. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cysylltu ag unrhyw gyflogwr, meddyg neu ysbyty rydych wedi dweud wrthym amdanynt yn y ffurflen gais.

Os bydd y swyddog penderfyniadau yn penderfynu eich bod wedi gweithio mewn swydd sy'n debygol o fod wedi achosi eich afiechyd, efallai y byddwn yn gofyn i chi fynd am asesiad. Byddwn yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych ble a phryd i fynd am yr asesiad. Os nad ydych yn ffit i deithio neu os ydych yn yr ysbyty, efallai y byddwn yn gofyn i'r meddyg neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ddod atoch. Rhowch fanylion llawn pam fod angen ymweliad cartref arnoch, ac anfonwch unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennych eisoes i gefnogi'r cais hwn. Peidiwch â gofyn na thalu am dystiolaeth newydd.

Bydd y meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi gwybodaeth i'r swyddog penderfyniadau am yr afiechyd, sut mae hyn yn effeithio arnoch a pha mor hir y mae'r effeithiau hyn yn debygol o bara.

Dywedwch wrthym am unrhyw ddyddiadau ac amseroedd efallai na fyddwch yn gallu mynd am asesiad yn y 6 mis nesaf. Er enghraifft, gwyliau ac apwyntiadau ysbyty. Rhowch fanylion llawn i ni yng nghwestiwn 83 y ffurflen gais. Os na fyddwch yn dod i apwyntiad ac nad ydych yn rhoi rheswm da, efallai y bydd yn gohirio eich cais neu'n cael eich cais am fudd-dal wedi'i gau.

Os gallwch gael IIDB, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthych:
- faint o arian y gallwch ei gael
- mwy am y budd-dal.

Os na allwch gael IIDB, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud y rheswm wrthych a beth i'w wneud os ydych yn anghytuno.

# Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:
- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisiau pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel mae'r gyfraith yn caniatáu, i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i ddiogelu yn erbyn trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, chwiliwch am 'Siarter Gwybodaeth Bersonol DWP' ar **www.gov.uk/cymraeg**

# Arian arall efallai y gallech gael

## Lwfans Enillion Is (REA)

Os na allwch wneud eich swydd arferol neu waith arall gyda thâl tebyg oherwydd afiechyd a achoswyd gan waith a bod eich anabledd wedi dechrau cyn 1 Hydref 1990, efallai y gallwch hawlio Lwfans Enillion Is (REA).

Os dymunwch hawlio REA, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ar ddiwedd y nodiadau hyn.

## Lwfans Gweini Cyson (CAA)

Os ydych yn cael IIDB ar y gyfradd 100% ac angen gofal a sylw dyddiol, efallai y gallwch gael Lwfans Gweini Cyson (CAA). Bydd CAA yn cael ei ystyried yn awtomatig ar adeg eich asesiad.

Os ydych wedi gwneud cais am IIDB ar gyfer afiechydon rhagnodedig D3, D8, D8A, D10, D11, C4, C22(b) neu C24(a) ni fydd angen i chi fynychu asesiad, ond gallwch gael eich ystyried ar gyfer CAA drwy gwblhau ffurflen BI107W.

Os nad oes gennych unrhyw anghenion gweini ar adeg eich dyfarniad IIDB, ond bod eich cyflwr yn gwaethygu a bod angen gweini cyson yn ddiweddarach, bydd angen i chi wneud cais am CAA gan ddefnyddio ffurflen BI107W. Gallwch gael y ffurflen o ganolfan IIDB. Mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn.

**Cofiwch** – dim ond os ydych eisoes yn cael IIDB ar y gyfradd 100% y gallwch hawlio CAA.

## Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol (ESDA)

Os ydych yn cael un o'r ddwy gyfradd uwch o CAA a bod angen gofal a sylw parhaol a chyson arnoch, byddwch yn cael eich ystyried yn awtomatig ar gyfer hawl i Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol (ESDA).

I gael mwy o wybodaeth am fudd-daliadau y gallech fod â hawl iddynt, ewch i **www.gov.uk**

## Taliad ychwanegol i bobl os yw eu cyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant wedi mynd allan o fusnes

Gall pobl sy'n dioddef o rai afiechydon diwydiannol a achosir gan lwch penodol gael cymorth o dan y Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979. Gallwch wneud cais os na allwch gael iawndal gan y cyflogwyr neu'r darparwyr hyfforddiant a achosodd neu a gyfrannodd at yr afiechyd.

Yr afiechydon y gallwch wneud cais amdanynt yw:
- D1 - niwmoconiosis (gan gynnwys asbestosis, silicosis a chaolinosis, ac ati)
- D2 - bysinosis
- D3 - mesothelioma ymledol
- D8 - carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint gyda thystiolaeth o asbestosis
- D8A - carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos o dan rai amgylchiadau
- D9 - tewychu plewrol ymledol unochrog neu ddwyochrog.

Os yw'r person:
- wedi dioddef o un o'r afiechydon hyn, **a**
- wedi marw, **a**
- heb gael cyfandaliad

gall eu dibynyddion wneud cais. Ond rhaid iddynt wneud y cais o fewn 12 mis i ddyddiad y farwolaeth.

Os credwch y gallech fod â hawl i daliad, cysylltwch â'r cynllun Iawndal Gweithiwr Niwmoconiosis yn:

**Barnsley Industrial Injuries Disablement Benefit office**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 1SY**

Rhadffôn **0800 279 2322**.

Peidiwch ag aros am benderfyniad ar eich cais o dan y cynllun IIDB cyn i chi wneud cais am y taliad ychwanegol hwn. Os byddwch yn aros mwy na 12 mis i hawlio'r taliad ychwanegol, efallai na fyddwn yn gallu eich talu.

## Beth os digwyddodd yr afiechyd y tu allan i'r DU neu rydych yn byw y tu allan i'r DU?

Fel arfer mae'n rhaid i'r afiechyd fod wedi digwydd yn y DU. Ond mae rhai eithriadau i'r rheol hon.

Os achoswyd eich afiechyd gan waith y tu allan i'r DU, neu os ydych yn byw y tu allan i'r DU, cysylltwch â'r Ganolfan Bensiynau Ryngwladol am gyngor yn:

**International Pension Centre**
**The Pension Service 11**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 1LW**

Rhif ffôn **+44 (0)191 206 9390**.

## Ble i gael cymorth a chyngor am afiechydon diwydiannol rhagnodedig

Os hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am IIDB, cysylltwch â ni am gymorth drwy ffonio **0800 328 1744**. Gallwch ddod o hyd i'n holl fanylion cyswllt ar ddiwedd y nodiadau hyn.

Gallwch hefyd gysylltu â chanolfan gynghori fel Cyngor ar Bopeth.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 169 0314**. Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hun, efallai y gallwch ddod o hyd i un yn eich llyfrgell leol neu swyddfa Cyngor ar Bopeth.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr gallwch gael cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim am IIDB a budd-daliadau eraill. Ffoniwch Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345**.

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a gwasanaethau ewch i'n gwefan yn **www.gov.uk/browse/benefits**

# Manylion cyswllt ar gyfer canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol Barnsley

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau yn ôl i'r cyfeiriad isod. Dyma gyfeiriad postio a rhif ffôn ein swyddfa IIDB os oes angen i chi gysylltu â ni:

**Barnsley Industrial Injuries Disablement Benefit office**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 1SY**

Rhif ffôn **0800 328 1744**

## Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol a llinellau daear.

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes rhaid eu dychwelyd gyda'r ffurflen.